

Cyngor Cymuned Llanelian (313)

Cofnodion cyfarfod Mehefin 4, 2019 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Elfyn Hughes, Thomas Jones, Ian Evans, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Cyng. Aled Jones Carli Evans Thau (Clerc)

Ymddiheuriadau: Helen Hughes, Hefina Williams, Dafydd Griffiths, John Griffiths, Cyng. Richard Jones

Yn absennol: David Gerrard, Cyng. Richard Griffiths

- 1** **Croeso**
Cadeiriwyd y cyfarfod gan Elfyn Hughes, ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.
Cyn cychwyn y cyfarfod, cadarnhawyd bod yr aelodau yn hapus bod y cyfarfod wedi ei alw'n gywir a bod cworwm yn bresennol.
- 2** **Datgan Diddordeb**
Ian Evans – Llwybrau Cyhoeddus
- 3** **Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd**
Enwebwyd Elfyn Hughes yn Gadeirydd ac Ian Evans yn Is-gadeirydd. Cynnig Thomas Jones, cytuno yn unfrydol.
- 4** **Aelodaeth Pwyllgorau**
Cadarnhawyd aelodaeth y pwyllgorau fel a ganlyn:
Llithrfa – Dafydd Griffiths, John Griffiths, Thomas Jones ac aelodau'r gymuned a swyddogion CSYM
Cae Chwarae – Carol Whitaker, Gordon Hayes, Cadeirydd ac Is-gadeirydd
Mynwent – Thomas Jones, Helen Hughes, John Griffiths, Cadeirydd ac Is-gadeirydd
Cyllid a Pholisi – Dafydd Griffiths, Hefina Williams, Glenys Jones, Cadeirydd ac Is-gadeirydd
Llywodraethwyr yr Ysgol – Glenys Jones
Pwyllgor y Neuadd – Helen Hughes
Partneriaeth CYnghorau Gogledd Mon – Dafydd Griffiths, John Griffiths
Wylfa Magnox – Dafydd Griffiths, John Griffiths
Un Llais Cymru – Ian Evans, Hefina Williams
Fforwm Cyswllt CSYM – i'w gadarnhau
- 5** **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**
Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Carol Whitaker, eilio Gordon Hayes.
- 6** **Materion yn Codi o'r Cofnodion**
- 6.1** **Materion Prifffyrdd** – cafwyd diweddariad gan Alun Roberts ynglyn a gwahanol faterion yn ymwneud a prifffyrdd yr ardal. Cytunodd Aled Jones y byddai yn cysylltu a'r swyddogion perthnasol am ddiweddariad pellach AMJ
- 6.2** **Llwybrau Cyhoeddus** – Bu i Ian Evans adael yr ystafell gyfarfod. Cafwyd diweddariad gan Aled Jones am y sefyllfa bresennol ynglyn ag ail agor llwybrau yn y gymuned. Nid oedd yr aelodau yn fodlon ag ymateb y swyddog i'r ymholiadau gan nodi nad oedd wedi ateb y cwestiynau cyffredinol a ofynnwyd iddo. Bu i Ian Evans ddychwelyd i'r ystafell gyfarfod.
- 6.3** **Baw Ci** – cafwyd wybod bod y warden gwn yn fodlon cwrdd ag aelodau'r cyngor – dyddiad i'w gadarnhau. Cadarnhawyd bod y bocsus bagiau baw ci y neu lle erbyn hyn a bod aelodau'r gymuned wedi gwirfoddoli eu llenwi fel bo angen. CT
- 6.4** **Llwybr Porth Gwichiad** – tybiwyd mai llwybr at y llyn i hwyluso cerbydau saethu / cynnal a chadw oedd y trac dan sylw. Cytuno cadw golwg ar y sefyllfa. Mae CSYM yn ymwybodol o'r datblygiadau.
- 6.5** **Gadfa Newydd** – cafwyd diweddariad gan yr ardan gynllunio sydd yn edrych ar y datblygiad yn dilyn derbyn nifer o gwynion. Mae disgwyl mwy o wybodaeth ymhen amser.

7 Adroddiadau Pwyllgorau

- 7.1 Caeau Chwarae** – nododd Carol Whitaker bod prosiect aml-genhedlaeth wedi ei drefnu ar gyfer 8/6/2019 ym Maes Llwyfo er mwyn cwblhau peth gwaith cynnal a chadw, gyda cyfle am banad a sgwrs i ddilyn yn y Neuadd Bentref.
- 7.2 Llithrfa** – nid yw'r pwyllgor wedi cwrdd. Deallwyd bod harbwr feistr newydd wedi ei benodi i'r ardal. Mae'r postyn yn ei le ar y llithrfa ac nid oes problemau hyd yma. Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi siarad a'r swyddogion perthnasol ynglyn ag arwyddion gwybodaeth newydd i ben y llithrfa. Aled Jones i wneud ymholiadau pellach.
- 7.3 Mynwent** – cadarnhawyd bod y meinciau ar gael i'w gosod yn Llaneilian a Bosra, mae angen trefnu placiau i'w gosod arnynt yn cydnabod cefnogaeth ariannol gan Magnox a'r Cyngor Cymuned. Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi cysylltu a'r Henaduriaeth ynglyn a cyflwr y llwybr ym mynwent Bosra. Mae disgwyl gwybodaeth pellach ganddynt. Bydd angen gwaith clirio a thorri ym mhen pella'r fynwent er mwyn gallu gosod mainc yno. CT
- Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi gadael negeseuon i Richard Williams i fynd ymlaen a'r giat newydd i Fynwent Eilian. Byddai yn ceisio cysylltu ag o eto i gadarnhau ei fod wedi derbyn y neges. CT
- Cafwyd gadarnhad am bris y gwaith i ddiogelu y cerrig beddi, a'r gwaith ac offer oedd ynghlwm. Cytuno symud ymlaen a'r gwaith cyn gynted a phosib. CT
- 7.4 Cyllid a Pholisi** – Dim diweddariad
- 7.5 Cronfa Ty Moel Isaf (1717-1985)** – Cadarnhawyd bod y cyfrifon banc newydd wedi eu hagor erbyn hyn. Rhoddwyd yr hawl i'r clerc drosglwydd arian i'r cyfrifon perthnasol cyn gynted a phosib. Cytuno byddai'r clerc yn cysylltu a pherchnogion presennol Ty Moel Isaf i'w hysbysu am y gronfa ac esbonio'r cefndir. CT
- 7.6 Pwyllgorau Allannol** – nododd Ian Evans ei fod wedi bod i sesiwn hyfforddi 'Sgiliau Cadeirio' yn ddiweddar, roedd y sesiwn yn cynnwys rol a chyfrifoldebau cadeirydd cyngor yn ogystal a sut i gadeirio cyfarfod. Nododd y clerc bod nifer o ddogfennau hyfforddiant Un Llais Cymru i'w cael ar eu gwefan erbyn hyn yn rhad ac am ddim.
- ## **8 Cynllunio**
- 8.1 Ceisiadau** – Ni fu ceisiadau i'w hystyried.
- 8.2 Penderfyniadau** – Ni chafwyd wybod am benderfyniadau CSYM. Nodwyd pryder nad oedd y cyngor wedi cael eu hysbysu am benderfyniadau CSYM ers peth amser. Aled Jones i gysylltu a'r adran gynllunio i weld pam nad oedd gwybodaeth yn cael ei anfon allan. Y clerc i gysylltu i ofyn am gyfiawnhad am benderfyniad cais Lanes End gan i'r tir fynd ar werth yn unionsyth wedi i'r cais gael ei gymeradwyo gan CSYM. AMJ CT
- ## **9 Materion Ariannol**
- 9.1 Taliadau**
Cymeradwywyd y taliadau canlynol –
£40.00 Un Llais Cymru (hyfforddiant)
£293.46 Carli Evans Thau (cyflog)
£455.88 Came and Company (yswiriant)
- 9.2 Ceisiadau am Arian** - Ni fu cais am gefnogaeth.
- 9.3 Archwiliad**
Cafwyd wybod gan y clerc nad oedd yr archwiliad mewnol wedi ei gwblhau. Bydd angen trefnu cyfarfod arbennig yn syth wedi i'r archwiliad mewnol gael ei gwblhau er mwyn cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'i hafnon at yr archwiliwr allannol erbyn diwedd mis Mehefin. CT

10 **Iechyd a Diogelwch**

Nodwyd bod llysdyfiant o erddi yn tyfu dros palmentydd, cytuno cadw golwg ar y sefyllfa a chodi ymwybyddiaeth CSYM os yw'r broblem yn parhau/gwaethygu.

11 **Wylfa Newydd**

Cafwyd grynodedb gan Aled Jones am y sefyllfa bresennol ar y safle. Nodwyd bod Gwen Parry Jones wedi ymuno a chwmni Magnox erbyn hyn.

12 **Gohebiaeth**

Dim.

13 **Unrhyw Fater Arall**

13.1 Nododd Ian Evans ei fod ar ddeall na ddylai Cyngor gynnwys eitem 'UFA' ar yr agenda gan nad oedd y cyhoedd yn cael gwybod ymlaen llawn beth oedd yn cael ei drafod. Nodwyd na fyddai unrhyw benderfyniadau yn cael eu gwneud dan yr eitem yma ond bod cyfle i godi ymwybyddiaeth o faterion oedd angen sylw, i'w cynnwys ar agenda y cyfarfod nesaf os oedd angen. Mae'r eitem yn gyfle i rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth.

13.2 Cafwyd wybod gan Aled Jones bod CSYM yn codi premiwm treth (100%) ar dai gwag, ond bod posib talu dim ond 35% os oes dodrefn yn y ty. Mae angen rhannu'r wybodaeth i'r gymuned gan nad oes lawer yn ymybodol o'r canllawiau.

13.3 Diolchodd Aled Jones am gydymdeimlad a chefnogaeth y cyngor yn dilyn ei brofedigaeth diweddar. Nododd yr aelodau eu bod yn gwerthfawrogi ei gefnogaeth a'i gydweithio, a bod ei bresenoldeb yn y cyfarfodydd a'i waith da o fudd i'r gymuned.

13.4 Cafwyd ddeall bod CSYM wedi gosod cytundeb newydd i ofalu am, a glanhau'r toiledau ger y traeth. mae hyn yn awgrymu bydd y cyfleuster yn parhau ar gael i cyhoedd.

13.5 Cafwyd wybod na fydd yr ymgynghoriad ar gyfer adoygu darpariaeth addysg dalgylch Amlwch yn cymryd lle yn y flwyddyn addysgol yma gan fod raid i CSYM ail edrych ar y broses a'r penderfyniadau a waned mewn ardaloedd eraill yn gyntaf.

14 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod cyffredinol nesaf Gorffennaf 2, 2019 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.30

Arwyddwyd
Elfyn Hughes
Cadeirydd